**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

4 Rhagfyr 2024

Annwyl Russell,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r argymhellion yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor a gynhaliwyd gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Fel yr amlinellwyd yn fy natganiad llafar a'r papur briffio technegol ar 26 Tachwedd, rydym wedi sefydlu grŵp cenedlaethol i adolygu priodoldeb mesurau ymateb ambiwlansys brys a thargedau cysylltiedig. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch y gwasanaeth, a hynny yng nghyd-destun Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal GIG Cymru a Fframwaith Perfformiad GIG Cymru.

Bydd y grŵp yn adolygu'r dystiolaeth glinigol sydd ar gael yn gyflym ac yn rhoi cyngor ar y materion a ganlyn:

- Priodoldeb y targed cenedlaethol presennol fel modd o alluogi canlyniadau o ansawdd yng nghyd-destun tystiolaeth glinigol sydd ar gael yn y DU ac yn rhyngwladol
- A yw'r fframwaith perfformiad ehangach ar gyfer gwasanaethau ambiwlans yn cyd-fynd â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal GIG Cymru
- P'un a oes angen argymhellion ai peidio o ran targedau neu fesurau newydd yn seiliedig ar yr hyn sydd bwysicaf i'r cyhoedd a'r dystiolaeth glinigol sydd ar gael.

Mae'r grŵp, yn bennaf, yn cynnwys arbenigwyr clinigol ym meysydd gofal mewn argyfwng cyn mynd i'r ysbyty ac ymateb ambiwlansys. Dyma aelodau'r grŵp:

| | |
|---|---|
| Jeremy Griffith (Cadeirydd) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru |
| Stacey Taylor | Prif Gomisiynydd (Dros Dro), Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


| | |
|---|---|
| Ross Whitehead | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, y Cyd-bwyllgor Comisiynu |
| Rachel Germine | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tystiolaeth, Gwerthuso ac Effeithiolrwydd, y Cyd-bwyllgor Comisiynu |
| Liam Williams | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Andy Swinburn | Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Rachel Marsh | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Perfformiad a Chynllunio, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Richard Bowen | Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng |
| Dr Tim Rogerson | Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Mewn Argyfwng, y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng / Ymgynghorydd Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor |
| Jennifer Winslade | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Dr Anna Kuczynska | Uwch-swyddog Meddygol Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl, Llywodraeth Cymru |
| Ryan Pike | Pennaeth Ystadegau Ysbytai, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru |
| Aled Brown | Pennaeth Gofal mewn Argyfwng, Llywodraeth Cymru |
| Febe Ashley | Uwch-reolwr Polisi Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, Llywodraeth Cymru |

Bydd y grŵp yn ceisio barn gan ystod o dystion arbenigol, gan gynnwys Llais a sefydliadau'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod llais y cyhoedd a chleifion yn cael ei ystyried. Bydd arbenigwyr clinigol cenedlaethol ar gyfer strôc, cyflyrau anadlol a chyflyrau'r galon hefyd yn cymryd rhan.

Y bwriad yw y bydd y gwaith hwn yn cael ei gynnal yng nghyd-destun esblygiad parhaus model ymateb clinigol y gwasanaeth ambiwlans, sy'n cyd-fynd ag argymhelliad arall y Pwyllgor ynghylch cyflwyno asesu ac ymyrraeth glinigol yn gynharach yn nhaith person.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care